BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Canllawiau brand

**Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:** Kate Hughes - catherine.hughes14@wales.nhs.uk | 029 2183 6641

# Gwybodaeth am RPB

Mae **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** Caerdydd a'r Fro yn helpu pobl i fyw eu bywydau gorau yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, tai a'r trydydd sector i drawsnewid gwasanaethau a chymunedau i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn, ar yr amser iawn, yn y lle iawn.

Rydym yn gwneud hyn oherwydd gallwn ddarparu canlyniadau gwell i bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro trwy weithio gyda'n gilydd.

Mae'r RPB yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y trydydd sector a'r sector annibynnol a chynrychiolwyr gofalwyr.

## Cyfathrebu yn y RPB yw

perswadio cynulleidfa ddiffiniedig, i gymryd cam diffiniedig, i greu canlyniad diffiniedig, mewn ffordd, effeithiol a chynhwysol, wedi'i threfnu.

## Ymgysylltu yn y RPB yw

cefnogi cynulleidfa ddiffiniedig, i ddylanwadu ar benderfyniad diffiniedig, mewn ffordd effeithiol a chynhwysol, wedi'i threfnu.

CARDIFF CAERDYDD

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

C3SC Cardiff Third Sector Council Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

GVS

# Lliwiau

Dylid defnyddio lliwiau'r logo wrth ddatblygu ffeithluniau.





| Dyraniad | Lliw | Pantone | RGB | HEX/HTML | CMYK |
|---|---|---|---|---|---|
| **RPB** | | Fioled C | 68 / 0 / 153 | 440099 | 94 / 100 / 0 / 1 |
| **Dechrau'n Dda** | | Porffor C | 187 / 41 / 187 | BB29BB | 36 / 89 / 0 / 0 |
| **Byw'n Dda** | | 3278 C | 0 / 155 / 119 | 009B77 | 100 / 0 / 65 / 0 |
| **Heneiddio'n Dda** | | Glas (Process Blue) C | 0 / 133 / 202 | 0085CA | 100 / 15 / 0 / 6 |
| **RPB Pop** | | 7738 C | 71 / 162 / 63 | 47823F | 70 / 0 / 93 / 5 |
| **SW Pop** | | 7406 C | 241 / 196 / 0 | F1C400 | 0 / 13 / 100 / 1 |
| **LW Pop** | | 151 C | 255 / 130 / 0 | FF8200 | 0 / 60 / 100 / 0 |
| **AW Pop** | | 3517 C | 193 / 0 / 22 | C10016 | 0 / 100 / 96 / 6 |

# Defnydd logo

Gadewch le gwag o amgylch y logo.

Peidiwch ag ymestyn delwedd y logo.




Osgowch eu defnyddio dros ddelweddau cefndir prysur.

## Pryd i ddefnyddio ein logo

Dylid defnyddio logo Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ar unrhyw fath o gyfathrebu a wneir neu a ariennir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rhaid cydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a gynhyrchir mewn perthynas â'r cyllid a phrosiectau cysylltiedig. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cymeradwyo.

## Ble i ddefnyddio ein logo

- Deunyddiau argraffedig (e.e. dogfennau, adroddiadau, posteri a deunydd marchnata)
- Gohebiaeth (e.e. llythyrau, cylchlythyrau)
- Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol gan gynnwys postiadau
- Unrhyw adnoddau cyfathrebu priodol eraill

## Cyfeirio at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro mewn testun

Wrth gyfeirio'n ysgrifenedig at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, dilynwch y canllawiau isod:

### Prif lythyren

Wrth ysgrifennu *Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro*, dylai pob gair fod â phrif lythyren ac eithrio *a'r*.

Wrth ysgrifennu *y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol*, dylai pob gair fod â phrif lythyren heblaw am *y* (ac eithrio os oes angen yn ramadegol, e.e. ar ddechrau brawddeg/paragraff).

## Talfyriad

Defnyddiwch y talfyriadau canlynol yn unig:

RPB Caerdydd a’r Fro *(pan fyddwch eisoes wedi defnyddio teitl llawn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro (RPB) yn yr un corff o destun)*

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol *(pan fyddwch eisoes wedi defnyddio Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro yn yr un corff o destun)*

Y RPB neu RPB *(pan fyddwch eisoes wedi defnyddio teitl llawn Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro (RPB) yn yr un corff o destun)*

## Unigol/lluosog


*Sylwer mai partneriaeth yw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro, felly dylid cyfeirio ati ar ffurf luosog:*

*Er enghraifft, ysgrifennwch “Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro a’u partneriaid...” nid “Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro a’i phartneriaid...” ac ati.*

## Cyfeirio at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro yn y person cyntaf lluosog

Mae’n dderbyniol cyfeirio at Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a’r Fro yn y person cyntaf lluosog pan fyddwch eisoes wedi cyfeirio at yr RPB gan ddefnyddio ei deitl llawn. Er enghraifft, “Ym Mwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a’r Fro, rydym...” neu ‘ni’.

# Strwythur RPB




## Aelodau'r RPB

Mae aelodau'r RPB yn eistedd ar y Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd yn ffurfiol. Cliciwch yma i weld y rhestr ddiweddaraf o aelodau. Dyma'r aelodau sy'n ffurfio'r RPB.

## Tîm y RPB

Tîm y RPB yw'r staff a gyflogir i gefnogi'r RPB. Nid ydynt yn aelodau swyddogol o'r RPB. Rydym yn cyfeirio at yr aelodau staff hyn fel Tîm yr RPB.

# Partneriaethau

Mae ein partneriaethau yn canolbwyntio ar gamau bywyd allweddol ein poblogaeth, tra hefyd yn darparu ystod o alluogwyr trawsbynciol sy'n creu sylfeini cadarn ar gyfer ein gwaith. Gellir defnyddio'r logos canlynol wrth gyfathrebu am bob rhaglen, ond rhaid eu defnyddio ar y cyd â phrif logo'r RPB.

DECHRAU'N DDA
STARTING WELL

DECHRAU'N DDA
STARTING WELL

BYW'N DDA
LIVING WELL

BYW'N DDA
LIVING WELL

HENEIDDIO'N DDA
AGEING WELL

HENEIDDIO'N DDA
AGEING WELL

## Disgrifio Dechrau'n Dda

Mae ein **Partneriaeth Dechrau'n Dda** yn dod â Chynghorwyr a phobl sy'n arwain gwasanaethau iechyd plant, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector at ei gilydd ar draws y rhanbarth. Rydym eisiau gwella a, lle bo'n angenrheidiol, trawsnewid gwasanaethau yng Nghaerdydd a'r Fro ac rydym yn canolbwyntio ar y canlynol ar hyn o bryd:

Gweithredu dull ysgol gyfan, lle mae gan bawb ran i'w chwarae i gefnogi iechyd a lles babanod, plant a phobl ifanc;

Creu fframwaith rhanbarthol sy'n nodi safon ar gyfer darparu gwasanaethau y gellir eu teilwra a'u defnyddio'n lleol;

Sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol sydd â'r nod o gefnogi pobl ifanc cyn i'w hanghenion gynyddu, ond sydd hefyd yn cynnig y cymorth iawn i blant mewn argyfwng;

Creu adnoddau rhanbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth;

Gwella cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

## Disgrifio Byw'n Dda

Mae ein **Partneriaeth Byw'n Dda** yn dod ag ystod o grwpiau a meysydd blaenoriaeth ynghyd sy'n effeithio ar bobl drwy gydol eu hoes, gan gynnwys:

- Gofalwyr di-dâl – Gofalwyr
- Pobl ag anableddau corfforol
- Pobl ag anableddau dysgu
- Oedolion ag awtistiaeth
- Pobl gydag iechyd meddwl gwael neu anghenion cefnogaeth emosiynol
- Nam ar y synhwyrau
- Pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol (ND)

Mae'n sicrhau bod pobl â phrofiadau personol wrth wraidd y gwaith a wnawn sy'n effeithio ar y grwpiau hyn.

## Disgrifio Heneiddio'n Dda

Mae ein **Partneriaeth Heneiddio'n Dda** yn dod â Chynghorwyr a phobl sy'n arwain gwasanaethau iechyd oedolion, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd ar draws y rhanbarth. Rydym eisiau gwella a, lle bo'n angenrheidiol, trawsnewid gwasanaethau yng Nghaerdydd a'r Fro ac rydym yn canolbwyntio ar y canlynol ar hyn o bryd:

### Dementia

Yn gwneud Caerdydd a'r Fro yn lle gwell i bobl â dementia a'u gofalwyr. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cymunedau sy'n deall dementia, lle mae pobl â dementia'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Hoffem ofalu am bobl â dementia a chanolbwyntio ar beth sydd bwysicaf i'r unigolyn a darparu ystod eang o gefnogaeth er mwyn helpu pobl i fyw eu bywydau gorau.

### @Home

Rhaglen waith uchelgeisiol sydd â'r nod o sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth iawn ar yr amser iawn. Nod y rhaglen yw cyflwyno model newydd o ofal a chymorth cydgysylltiedig a gyflwynir yn lleol, sy'n cysylltu'r GIG, cynghorau, gwasanaethau trydydd sector a rhwydweithiau cymuned lleol.

Hoffem fabwysiadu dull cydgysylltiedig er mwyn galluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles a chael mwy o amser i fyw eu bywydau yn y ffordd maent yn dymuno.

# Logos eraill

Os oes angen logos ychwanegol, cysylltwch â'r [Uwch Swyddog](#) Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

# Cydnabod partneriaid/cyllid

Os yw prosiect yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, rhaid cynnwys y logos canlynol ar unrhyw fath o gyfathrebu:

Rhaid cydnabod cyfraniadau gan sefydliadau eraill hefyd, yn ddelfrydol trwy gynnwys eu logo. Lle mae'r bartneriaeth gyfan yn gysylltiedig, gellir defnyddio'r stribed hwn:

# Brandio ychwanegol

Lle bo modd, rydym yn cynnwys y stribed hwn fel troednodyn wrth gyfathrebu. Dylid ei ddefnyddio ar waelod y neges ac ni ddylai dorri ar draws y testun. Dylid ei leoli o flaen lluniau lle maent yn gorgyffwrdd.
Mae templedi ar gael yn y ffeil Ffurflenni a Thempledi neu ar gais.

# Pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg

Cyfeiriwn at y dinasyddion sy'n byw yn ein rhanbarth fel pobl yn gyntaf (yn hytrach na, er enghraifft, cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth), oni bai bod pobl â phrofiad personol yn mynegi hoffter am derm arall e.e. oedolion awtistig. Gellir defnyddio'r term dinasyddion hefyd.

# Cyfieithu

Mae'r RPB wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a dylai pob dogfen gyhoeddus fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd gyda'r Gymraeg yn cael ei harddangos yn gyntaf lle na ellir eu harddangos ar wahân e.e. yng nghorff e-bost. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

# Troedyn e-bost

## Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol:

| | |
|---|---|
| **Enw llawn e.e. Jo Bloggs**<br>**Teitl eich swydd yn Gymraeg**<br>**Teitl eich swydd yn Saesneg** | Kate Hughes<br>Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Senior Communications and Engagement Officer |
| **Cyfeiriad** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol  Caerdydd a'r Fro<br>Regional Partnership Board Cardiff and Vale<br>Tŷ Coetir \| Woodland House<br>Ffordd Maes-Y-Coed \| Maes-Y-Coed Road<br>Caerdydd \| Cardiff<br>CF14 4HH \| CF14 4HH |
| **Rhagenwau (dewisol)** | Enghraifft o'ch dewis rhagenwau:<br>My pronouns are 'She' and 'Her'/'Hi' neu 'Ei' ydy'r rhagenwau sydd orau gen i |
| **Disgwyliadau ymateb (dewisol)** | (I am sending this email now as it is a convenient time for me to do so. I understand that this may not be the best time for you, so please only respond to this message when convenient to you)<br>(Rwy'n anfon yr e-bost hwn nawr gan ei fod yn amser cyfleus i mi wneud hynny. Rwy'n deall efallai nad hwn yw'r amser gorau i chi, felly cofiwch ymateb i'r neges hon dim ond pan fydd yn gyfleus i chi) |

**Dilynwch ni ar Twitter @RPB_CAV | Follow us on Twitter @RPB_CAV**

**Hoffwch ni ar Facebook @RPBCAV | Like us on Facebook @RPBCAV**

**BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL**
CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE
**REGIONAL PARTNERSHIP BOARD**

# Canolbwyntio ar gydweithio

Mae'r RPB yn canolbwyntio ar integreiddio a, lle bo'n bosibl, dylai ein negeseuon adlewyrchu hyn. Rydym am weld sefydliadau'n symud y tu hwnt i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu cydberthnasau dwfn ac ystyrlon gan arwain at wasanaethau gwell i'n dinasyddion. Mae geiriau allweddol i'w defnyddio yn cynnwys:

- Gweithio gyda'n gilydd
- Partneriaeth
- Cydberthnasau
- Meddwl am y cyfan
- Gwasanaethau di-dor
- Rhychwantu ffiniau
- Cydgynhyrchu
- Hwyluso
- Meddwl yn eang
- Ymuno
- Cysylltu
- Dod â phobl at ei gilydd
- Gweithio ar draws ffiniau proffesiynol/traddodiadol
- Rhannu gwybodaeth

**Yn y bôn, hoffem wneud gwasanaethau cydgysylltiedig a gweithio mewn partneriaeth yn bethau cyffredin.**

# Themâu allweddol eraill

## Dod â phobl gyda ni trwy chwilfrydedd ac anogaeth

Rhan o rôl y RPB yw goresgyn rhwystrau o ran gweithio mewn partneriaeth drwy annog meddylfryd chwilfrydig ac annog eraill i ystyried manteision gweithio mewn partneriaeth:

- Gofyn cwestiynau
- Perswadio
- Dewch gyda ni
- Teithiau
- Meddwl mewn ffordd wreiddiol
- Chwilfrydedd
- Gofyn pam
- Peidio â dweud na
- Amynedd
- Penderfyniad
- Gwrando
- Caniatâd

# Uchelgeisiau mawr

**Er y cydnabuwyd y bydd newid yn cymryd cryn amser, mae angen i ni ystyried y tymor hirach a dechrau gwneud newidiadau nawr y gellir adeiladu arnynt:**

- Mae pobl yn byw eu bywydau gorau yn eu cartrefi a'u cymunedau
- Rydyn ni'n dda am feddwl yn eang iawn – edrych ar yr hyn sydd ar y gorwel, cyn canolbwyntio ar y manylion bach
- Cydgysylltu gwasanaethau i wella bywydau pobl
- Gwasanaethau di-dor
- Cadw pobl yn annibynnol ac yn iach
- Lleihau gwaith a dyblygu

# Pobl wrth wraidd popeth a wnawn

**Mae'r ymrwymiad i gynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y bobl sy'n eu derbyn yn ganolog i'n gwaith:**

- Pobl yn gyntaf, nid gwasanaethau
- Dechrau gyda'r person
- Canlyniadau da i blant a phobl ifanc
- Cydgysylltu gwasanaethau i wella bywydau pobl

# Dewis delweddau

Rydym yn ceisio defnyddio lluniau a delweddau cadarnhaol sy'n cynrychioli gwahanol themâu. Rydyn ni'n ceisio defnyddio llai o luniau gyda modelau ac yn anelu at naws naturiol. Pan fo hyn yn heriol, er enghraifft gyda phynciau megis camddefnyddio sylweddau, rydym hefyd yn defnyddio delweddau cynrychioliadol yn lle pobl. Rydym yn aml yn torri delweddau yn gylchoedd i adlewyrchu siâp ein logo. Ceisiwch gynrychioli'r amrywiaeth gyfoethog o bobl yn ein rhanbarth wrth ddewis cyfres o luniau, ond ceisiwch osgoi defnyddio delweddau sy'n atgyfnerthu stereoteipiau.

**Enghreifftiau**






**Delweddau heneiddio positif am ddim** - https://ageing-better.org.uk/news/age-positive-image-library-launched

**Delweddau diweddar rydyn ni wedi'u defnyddio o Canva**




**Enghreifftiau o luniau diweddar rydyn ni wedi'u tynnu**




# Protocol Gweithredu Safonol ar gyfer Sicrwydd a Chymeradwyaeth Partneriaethau

**Rhaid rhoi'r cyfle priodol i bob Partner gyfrannu at ddatblygiad a chymeradwyaeth derfynol yr holl gyfathrebiadau a wneir ar ran Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r meysydd canlynol:**

- *ymatebion ffurfiol i ohebiaeth Llywodraeth Cymru;*
- *adroddiadau perfformiad a gwerthuso / cynigion cyllido;*
- *ymarferion ymgysylltu;*
- *cyfathrebu cyhoeddus;*
- *ymweliadau ffurfiol gan bwysigion megis seremonïau agoriadol ar gyfer prosiectau penodol;*
- *astudiaethau achos.*

Mae'r cwestiynau canlynol wedi'u datblygu i helpu i nodi'r camau cywir y dylid eu cymryd i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd a chymeradwyaeth derfynol, gan sicrhau bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys ar y cam datblygu cywir gydag unrhyw gyfathrebu.

| |
|---|
| **Teitl / Pwnc** |
| **Ffocws / Pwrpas y cyfathrebu** *(neges, derbynnydd(wyr) bwriadedig, 'cyrhaeddiad' a ragwelir (Gweinidog mewnol / Gwas Sifil Llywodraeth Cymru, staff mewnol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyfan, y cyhoedd))* |
| **Derbynnydd(wyr) bwriadedig,** *'cyrhaeddiad' a ragwelir (Gweinidog mewnol / Gwas Sifil Llywodraeth Cymru, staff mewnol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyfan, y cyhoedd))* |
| **Dyddiad cau ar gyfer cwblhau** |
| **Dyraniad cyllid i gefnogi (os yw'n briodol)** |
| **Arweinydd Tîm Partneriaeth** |

## Paratoi cychwynnol

| Partner | Enw'r Aelod o Staff | Swydd | Amser sydd ei angen | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| UHB | | | | |
| Cyngor Caerdydd | | | | |
| Cyngor y Fro | | | | |
| GVS | | | | |
| C3SC | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |

## Ymgysylltiad Ehangach / Sicrwydd

| Partner | Enw'r Aelod o Staff | Swydd | Amser sydd ei angen | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| UHB | | | | |
| Cyngor Caerdydd | | | | |
| Cyngor y Fro | | | | |
| GVS | | | | |
| C3SC | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |

## Cymeradwyaeth gan Uwch Reolwyr

| Partner | Enw'r Aelod o Staff | Swydd | Amser sydd ei angen | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| UHB | | | | |
| Cyngor Caerdydd | | | | |
| Cyngor y Fro | | | | |
| GVS | | | | |
| C3SC | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |

## Cymeradwyaeth Derfynol

| Partner | Enw'r Aelod o Staff | Swydd | Amser sydd ei angen | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| UHB | | | | |
| Cyngor Caerdydd | | | | |
| Cyngor y Fro | | | | |
| GVS | | | | |
| C3SC | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |
| Arall | | | | |